



## Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio

Richard Roderick

## Ymchwilio i Gynhyrchu Gwartheg Magu yn Broffidiol, ar sail y defnydd mwyaf posibl o borthiant

YR ALBAN, IWERDDON A GOGLEDD LLOEGR

Medi 2017

### Cynnwys

Nod yr ymweliadau cyfnewid .....	1
Ymweliadau.....	2
Canlyniadau'r Ymweliadau Cyfnewid.....	22
Casgliad .....	23

## Nod yr ymweliadau cyfnewid

Y nod dros y pum mlynedd nesaf yw gwneud y busnes yn fwy abl i wrthsefyll y newidiadau sydd o'n blaenau. Rydym yn anelu at ganolbwyntio ar bob elfen o'r busnes a'u gwneud yn broffidiol drostynt eu hunain. Bydd busnes cynaliadwy yn golygu cynhyrchu bîff a chig oen, o borthiant yn bennaf, i sicrhau bod y costau cynhyrchu yn cael eu cadw cyn lleied â phosibl. Felly mae'r glaswelltau a dyfir a'r defnydd ohonynt yn yrwyr allweddol i'r busnes.

Y pwyslais ar gyfer y 5 mlynedd nesaf fydd parhau i wella geneteg ein bîff a chig oen gyda'r nod o fedru cynhyrchu buches/diadell sy'n cynhyrchu ei stoc cyfnewid ei hun. Yn ychwanegol rydym yn anelu at roi mwy o bwyslais ar y defnydd gorau o'r glaswellt a dyfir.

Dros y flwyddyn a mwy ddiwethaf rydym wedi bod yn casglu data am y fuches ac yn bwriadu cofnodi perfformiad ein holl anifeiliaid. Bydd hyn yn cynhyrchu gwerthoedd bridio tybiedig i'r fuches, gan ein galluogi i ddewis y nodweddion mwyaf buddiol yn yr heffrod cyfnewid at y dyfodol.

Trwy deithio i'r Alban y nod oedd datblygu dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer y fenter bîff. Wrth edrych ar amrywiaeth o'r buchesi sy'n cyflawni orau fe fyddem yn gallu pennu'r dangosyddion yma ar sail y ffermwyr mwyaf llwyddiannus yn y diwydiant a dod â'r wybodaeth yn ôl i'w gweithredu ar fferm Newton Farm.

Byddai'r ymweliadau cyfnewid yn cynnwys busnesau enghreifftiol yn yr Alban, Iwerddon a Gogledd Lloegr. Mae'r amodau o ran cynhyrchu bîff yn debyg yn y tair gwlad hynny ac mae rhai ffermwyr yn arwain y ffordd o ran gorffen bîff ar borthiant. Mae pennu'r dangosyddion perfformiad allweddol i'w defnyddio yn ôl ar fy fferm yn flaenoriaeth. Mae gan yr holl ffermydd a ddynodwyd fuchesi bîff cymharol fawr ac maent yn seiliedig ar systemau porthiant yn bennaf.

## Ymweliadau



### Doug Deer, Osgodby, Selby, Swydd Efrog

Bwriad yr ymweliad â Doug Deer oedd ymchwilio i'r dewisiadau o ran pesgi gwartheg. Mae Doug yn arbenigwr ar besgi gwartheg bîff. Un dewis yn y dyfodol fyddai anfon ein teirw at Doug ar sail gwely a brechwast a fyddai'n rhyddhau adnoddau gartref i ganolbwyntio ar gynhyrchu gwartheg magu.

Yma, mae'r gwartheg yn cael eu brechu cyn cyrraedd ac yn cael eu pesgi ar ddiet penodol o rawn a ffacbys wedi eu tyfu gartref.

Gall gwartheg gael eu rhoi ar iard Doug. Mae tâl am bob diwrnod am hynny, sy'n talu am wellt, dŵr, peiriannau, adeiladau ac ati.

Codir ar gyfradd pro rata am y porthiant, ac mae'r cyfan yn cael eu cofnodi i mewn ac allan o'r Keenan ar y blwch IC. O brofiad blaenorol bydd y gwartheg rhwng 350kg a 650kg yn bwyta cyfartaledd o 16 kilo o bwysau ffres y dydd sy'n costio 11.2c/kg, sy'n £1.79 y dydd (gall diet a phrisiau nwyddau newid). Cadarnheir hyn i gyd cyn i'r gwartheg gyrraedd y fferm.

Byddai'r cynnydd mewn pwysau'r dydd tua 1.8kg, (nid oes gwarant o hynny, mae'n dibynnu ar fridio, a ffactorau eraill sydd tu hwnt i reolaeth Doug).

### Stad Birdsall, Malton, Swydd Efrog - Robin Hughes, Rheolwr Fferm

Mae Stad Birdsall yn stad fawr sy'n cynnwys 7500 erw, gyda thua 1,000 erw o goetir, 5,000 erw o dir â'r gweddill yn ddolydd sych. Mae'r ardaloedd sy'n cael eu ffermio erbyn hyn yn cynnwys priddoedd cleiog ar y tir isel, tarenni o rosydd ac ochrau'r dyffrynnoedd gyda chaeau tir â'r mawr ar y tarenni fflint bas a sialc sy'n draenio'n dda. Ceir glawiad blynyddol o 28 modfedd y flwyddyn.

Mae Birdsall wedi bod yn bridio gwartheg Stabiliser ers 1997. Cyn hynny roedd ganddynt fuches Lim X a Sim X gan ddefnyddio tarw terfynol Charolais yn ogystal â buches laeth Holstein. Fe wnaethant gychwyn trwy fewnforio 119 embryo. Cyn pen 3 blynedd dim ond

teirw Stabiliser oedden nhw'n ei ddefnyddio. Er mai'r nod oedd cadw'r heffrod i gychwyn, fe wnaethant weld bod y lloeau gwryw yn hawdd, rhad a chyflym i'w pesgi.



Erbyn hyn mae ganddynt 1300 o fuchod Stabiliser, sy'n cael eu gaeafu allan mewn corlannau. Y nod yw cael buchod yn pwysu 650kg ar gyfartaledd, gyda phob buwch yn diddyfnu llo sy'n 50% o bwysau ei chorff. Maent yn dal i fewnforio 40 embryo'r flwyddyn ac ar hyn o bryd eu

prif bwyslais yw effeithlonrwydd y porthi. Yn flynyddol maent yn anfon teirw i Givendale lle maent yn cymryd rhan mewn treialon effeithlonrwydd porthiant, ac yna mae gan y teirw werth bridio tybiannol ar gyfer effeithlonrwydd porthiant.

Ers Mai 2004 maent wedi bod yn fuches gaeedig ac maent wedi canolbwyntio ar lunio'r fuches. Fel y mae Robin Hughes yn dweud "os oes gennych chi wartheg o'ch cwmpas, mae gennych rywbeth i'w werthu o hyd."

### **Brechiadau a Thriniaethau**

Defnyddir Huskvac ar gyfer llyngyr yr ysgyfaint. Mae'r fuches yn un heb BVD. PI3 a RSV a Pasteurella gan ddefnyddio brechiad byw yn y trwyn a defnyddir brechiad marcio ar gyfer IBR. (Heb IBR).

### **Bridio**

Eleni rhoddwyd tarw potel i 50 o heffrod gan ddefnyddio rhaglen wedi ei chyd-amseru gyda tharw o'r enw Resolution. Yn y brif fuches mae'r teirw hefo'r buchod am 9 wythnos. Mae ganddynt 50 o deirw stoc ac maent yn gwerthu tua 15 o deirw'r flwyddyn. Disgwylir y bydd 4% yn wag. Mae'r lloea yn dechrau ar 1 Ebrill ac yn parhau hyd wythnos gyntaf Mehefin. Genir y lloeau dan do ac yna ânt allan i'r glaswellt.

### **Pesgi**



Mae'r gwartheg yn cael eu pesgi dan do gan ddefnyddio dogn sydd wedi ei dyfu ar y fferm i raddau helaeth. Mae 13 yn gweithio ar y fferm ac mae'n hollol hunangynhaliol o ran peiriannau a llafur. Yr uchafswm o ran pwysau a werthwyd eleni oedd 417kg, gydag amrywiaeth pwysau rhwng 300-400kg.

### **Gwerthu**

Profir DNA popeth sy'n cael ei werthu i fridio, profir semen y teirw ac mae'r heffrod yn cael eu gwarantu i fridio.

### **Manor Farm, Cranswick gydag Ursula Taylor, BIG Ltd**

Ursula yw'r Rheolwr Gwerthiant i BIG Ltd, ac mae ganddi ei buches ei hun o 15 o fuchod Stabiliser fel rhan o'i buches Whitking. Mae ei phartner Jonathan wedi arallgyfeirio i faes gwely a brecwast i foch, gan ofalu am 5,000 o foch ar unrhyw adeg ar sail contract penodol.



### **Snipe House Farm, Robert Robertson**



Angus/Lim oedd y buchod gwreiddiol ar Snipe House Farm a tharw terfynol Charolais. Dechreuodd droi at fuchod Stabiliser yn 1999 trwy brynu semen i mewn a bridio ei hun gyda'r brif nod o ddod yn hunangynhaliol o ran stoc cyfnewid. Roedd y buchod yn cael eu gweld yn



gofyn tarw yn y sied ac yn cael tarw potel.

Bum mlynedd yn ôl prynwyd embryonau i mewn er mwyn cael llinach newydd.

Gweithredwyd polisi o beidio â phrynu lloeau hefyd sydd wedi cael effaith cadarnhaol ar iechyd y fuches.

Mae'r heffrod a'r buchod yn cael eu troi at y tarw am 6 wythnos yn unig gan

ddefnyddio tarw byw. Mae'r cyfraddau cyfloi ar gyfartaledd dros 90% er y gall amrywio mewn heffrod. Rhoddir 40 i 50 i bob tarw. Dewisir buchod F1 a "rhy dal" (nad ydynt yn addas i fridio lloeau pedigri oherwydd eu nodweddion) fel derbynwyr embryonau.

Rhoddwyd y gorau i loea yn yr hydref i loea ym mis Ebrill ac fe wnaeth Snipe House stopio cadw defaid. Prynir y buchod i mewn, gan wirio eu bod yn gyflo a rhoddir sgôr cyflwr corff iddynt. Bydd y lloeau cyflo a'r rhai sy'n lloea am y tro cyntaf yn treulio'r gaeaf dan do. Bydd buchod â sgôr cyflwr corff o 3.5 a throsodd a'r rhai sy'n lloea'r ail waith yn treulio'r gaeaf allan ar borfa arw sydd wedi ei neilltuo ar eu cyfer.

Os bydd eira am gyfnod hir ym mis Rhagfyr, rhoddir gwellt gwenith iddynt ac yn Ionawr ategir bwyd sych gan ddefnyddio 'snacker'.

Mae'r fferm yn codi o 400-900 troedfedd.

Bydd lloeau yn cael eu diddyfnu ar ddiwedd Hydref/dechrau Tachwedd.

Dywed Robert Robertson bod maint ffrâm y fuwch yn bwysicach na phwysau'r fuwch ac mae felly yn mesur uchder cluniau'r buchod. Mae unrhyw fuwch sydd dros 56 modfedd ar y glun yn "rhy dal" yn ei farn ef.

Dangosodd ymchwil yn Snipe House, lle'r oedd y buchod yn cael eu grwpio yn ôl taldra, bod gan bob grŵp yr un sgôr cyflwr corff ar gyfartaledd o 3.5. Roedd hyn yn golygu bod y buchod talaf yn diddyfnu rhwng 30 a 40% o bwysau eu cyrff, y rhai lleiaf yn diddyfnu ar 50% o'u pwysau a'r rhai canolig yn diddyfnu ar 45% o'u pwysau.

Defnyddiodd Robert gronfa ddata Access i gofnodi ei holl fanylion bridio a gwybodaeth am y gwartheg.



### SRUC yr Alban gyda Jimmy Hyslop

Canolfan ymchwil yn bennaf yw Easter Howgate ac mae'r math o ymchwil a wneir yno yn ddibynnol ar y cyllid a geir i'w gynnal. Fel arall mae'r fferm yn cael ei rhedeg mor fasnachol ag sy'n bosibl.

Yn yr Alban mae 450,000 o wartheg bîff mewn cymhariaeth â dim ond 190,000 o wartheg llaeth. Mae mwyafrif y buchod yn Angus X, Simental X, Limousin X yn ogystal â Luings.

### **Pesgi Bîff**

Y cyngor gan Jimmy yw mai'r ystadegyn allweddol ar gyfer gwartheg bîff yw'r dyddiau hyd eu lladd. Mae hyn yn golygu bod yr effeithlonrwydd mwyaf yn cael ei sicrhau o ran trosi bwyd ac mae hefyd yn lleihau'r allyriadau o'r cynhyrchiant bîff. Mae 23 mis hyd eu lladd yn rhy hir yn ei farn ef.

Dylid annog cynhyrchwyr bîff i fabwysiadau systemau effeithlon, gorffen mewn cyfnod byr sy'n rhoi cyfraddau tyfu uchel, carcasau o safon ac ansawdd bwyta rhagorol gyda mwy o botensial am elw mewn cymhariaeth â systemau gorffen sy'n cymryd mwy o amser.

O ran trosi bwyd mae teirw yn fwy effeithlon na bustych. Ar ôl diddyfnu dylai'r teirw fynd ar ddogn i'w pesgi. Fe ddylent fod yn bwyta 11.5 i 12kg o gynnwys sych y dydd. Yn ystod y cyfnod y byddant yn cael eu gorffen bydd teirw yn bwyta rhwng 2.3 a 2.5 tunnell o farlys. Unwaith y bydd y teirw yn cyrraedd y fanyleb fe ddylid eu gwerthu. Y farn yw, erbyn hynny, ei bod yn costio mwy i ychwanegu pwysau nag y gellir ei gael yn ôl.

Dylid pwysu unwaith y mis o leiaf. Yn Easter Howgate maent yn treialu system bwysu Ritchie – mae'r tanc dŵr yn cael ei osod o flaen y glorian. Bydd yr anifeiliaid yn yfed sawl gwaith y

dydd ac mae eu pwysau yn cael ei gofnodi a'i ddadansoddi yn barhaus. Mae'n ymddangos yn sicr bod hyn yn symleiddio pwyso'r gwartheg.



Mae treialon effeithlonrwydd bwyd yn parhau ar y fferm – mae effeithlonrwydd ac ymddygiad yn cael eu dadansoddi.

### **Atal Afiechyd**

Y protocol arferol i wartheg yw brechu rhag BVD/IBR/PI3/RS3 gan ddefnyddio Respiral 4. Mae angen dau frechiad 3-4 wythnos ar wahân.

### **Buchod**

Mae buchod yn yr Alban yn ddibynnol ar borthiant yn bennaf, ond mae llawer o'r ffermydd yr ymwelwyd â hwy ar borfa wedi ei neilltuo yn defnyddio rholiau cobynnau i ategu ato i sicrhau bod y fitaminau a mwynau cywir yn cael eu porthi. Y nod i fuwch aeddfed ar gyfartaledd yw 650-700kg gyda phwysau'r fuches ar gyfartaledd yn 600-650kg.

Anelir at gael y sgôr cyflwr corff cyfartalog o 3 i 3.25.

Un dangosydd perfformiad allweddol yw pwysau yn 200 diwrnod fel canran o bwysau'r fuwch aeddfed.

### **Fferm Ymchwil Easter Howgate**

Mae'r fferm ymchwil yn SRUC yn cynnwys 2400 erw, tua 2.5 milltir o hyd ac mae yno 3 bryn. Defnyddir rhwng 400 a 450 erw ar gyfer cynhyrchu porthiant gaeaf ac a allai fod yn rhan o gylchdro tir âr. Mae 1700 erw yn fryniau heb eu gwella.

Mae ganddynt fuches sy'n lloea yn y gwanwyn o 230 o fuchod Angus X a Lim X yn ogystal â rhai Luings pur. Mae'r fuches hydref yn cynnwys 60 o fuchod Angus X a Lim X a Luing. Limousin yw'r brîd mwyaf cyffredin yn y Deyrnas Unedig. Mae 1,000 o famogiaid penddu ar y fferm hefyd. Y prif nod ar y fferm yw ymchwil.

Defnyddir tarw potel wedi ei gyd-amseru gyda dau gynhwysydd semen yr un a defnyddir 3 tarw Limousin a 2 Angus i sicrhau bod y buchod i gyd yn cyfloi. Rhoddir 49 diwrnod ar gyfer y paru. Bydd heffrod yn lloea yn ddwy flwydd oed.

Roedd y lloeau a aned y flwyddyn ddiwethaf yn amrywio rhwng 30kg (gefeilliaid) a 46kg.

Un dangosydd perfformiad allweddol yw'r lloeau sy'n cael eu diddyfnu fel canran o'r nifer o fuchod aeth at y tarw. Dylai'r targed fod yn 95%. Nodir bod y cyfartaledd ar draws y Deyrnas Unedig a'r Alban ar hyn o bryd yn 84%, er bod SRUC yn meddwl ei fod yn nes at 80%.

Mae 4 elfen i'r colledion:-

1. % Sganio
2. Colledion yn ystod beichiogrwydd
3. Colledion wrth eni
4. Colledion hyd at ddiddyfnu yn 200 diwrnod

### **Ymchwil Monitro Allyriadau yn Easter Howgate**



Adeiladwyd canolfan arbenigol i fonitro'r allyriadau o wartheg a defaid ac fe'i defnyddir o dro i dro ar gyfer gwaith ymchwil.

### **Casglu a Defnyddio Data**

Mae SRUC yn ddefnyddio taenlenni Excel yn bennaf i gofnodi a dadansoddi data.

### **Giles Henry, Oakmill, Selkirk**

Mae Fferm Oakmill yn 250 erw o dir isel a 260 erw o borfa wedi ei neilltuo ar fryn "gwyrdd", sy'n cael ei bori yn ystod misoedd y gaeaf yn unig. Yn yr ardal hon o'r Alban mae'r glawiad tua 47 modfedd y flwyddyn.

Gwartheg



Gwartheg Luing y mae Giles yn eu cadw. Datblygwyd y brîd i gychwyn yn 1947 ac mae'n groesiad rhwng gwartheg yr Ucheldir a'r brîd Byrgorn Biff, gyda rhai gwartheg byrgorn gwyn wedi eu defnyddio hefyd. Mae'r Luing delfrydol yn ddwfn o ran corff ac yn llydan yn esgryn y pelfis i loea'n rhwydd. Daeth 44 o fuchod Giles â lloeau yn 2017, ac aeth 60 at y tarw eleni. Mae'n defnyddio tarw sy'n aros hefo'r buchod am 8 wythnos.

Bydd y buchod yn mynd i'r bryn ar borfa wedi ei neilltuo dros 260 erw o ddiwedd Hydref nes y byddant yn lloea. Porthir 2.5kg o gobynnau organig gyda mwynau wedi eu hychwanegu y pen y dydd am 100 diwrnod cyn lloea gan ddefnyddio 'snacker'.



### **Pori Cadwraethol**

Nid yn unig mae pori'r bryn dros y gaeaf yn gwneud synnwyr busnes, mae hefyd yn rhagorol o ran bioamrywiaeth. Bydd blodau a glaswelltau yn tyfu yn yr haf ac yn datblygu hadau cyn cael eu pori a'u gwrteithio gan y gwartheg yn ystod misoedd y gaeaf.



### **Lloea**

Yn digwydd ar y bryn o 1 Ebrill yn flynyddol ac mae'r lloeau yn cael eu tagio ar unwaith. Mae 84% o'r lloeau a enir yn ddi-gorn. Dewisir y lloeau teirw wrth eu

geni, ar sail eu genynnau a'u gallu i godi a symud ac maent yn torri ar y gweddill.

Bydd y lloeau yn cael eu diddyfnu yn gynnar ym mis Hydref ac maent yn mynd yn syth i bori ar badogau. Oddi yno byddant yn pori cêl ac yn bwyta silwair dros y gaeaf cyn cael eu pori mewn cylchdro eto'r haf canlynol. Bydd y gwartheg yn cael eu gorffen yn tua 25 mis oed ar laswellt. Gwerthir y bustych ar bwysau byw cyfartalog o 615kg a 350kg ar y bach i'r cynllun

premiwm organig yn Dovecote Park, sydd ar hyn o bryd tua £5 y kilo. Mae ei fustych gorau yn cyrraedd £2,000.



### Defaid

Mae gan Giles 300 o famogiaid Cheviot y Gogledd, y mae wedi bod yn eu cofnodi yn llawn am o leiaf 15 mlynedd gan ddefnyddio meddalwedd Border Software a Sygnet.

Bydd yr ŵyna yn dechrau o 26 Ebrill a dewisir y stoc cyfnewid wrth eu geni ar sail genynnol a rhoddir tag i'w nodi.

Cyfartaledd pwysau ei ŵyn

benyw yn 20 wythnos oed yw 34.5kg.

### Glaswelltir

Mae gwerthoedd pH yn allweddol i'r fferm hon a chedwir at ystod rhwng 6.2 a 6.5, sy'n uwch na'r pH a argymhellir. Cred Giles bod hyn yn allweddol i'w allu i gael tyfiant glaswellt da iawn.

Dywedir bod pori cylchdro gan ddefnyddio ffensys trydan yn cynyddu'r allbwn o 27%.

Mae system Giles yn un organig ac mae'n angerddol am laswellt a'i ddefnydd. Bydd yn aredig ei wndwn bob saith mlynedd gan ddefnyddio cêl fel cnwd i'r tir gael seibiant. Cyfanswm cost ail-hadu ar hyn o bryd yw £100 yr erw. Oherwydd yr allbwn sy'n cael ei gyflawni cred Giles bod hyn yn werth da am arian, mewn cymhariaeth â phrynu erwau i mewn trwy rent. Mae ansawdd ei laswellt yn eithriadol a chofnododd ME o 12.6 ar ei wndwn meillion ym mis Medi. Gwahanir y padogau yn flociau 1 hectar gyda ffensys trydan. Mae 20 o fuchod a lloeau yn pori 1ha mewn tua 3 diwrnod. Yna mae pob plot yn cael ei orffwys am tua 21 diwrnod. Os bydd yr amodau tyfu yn anffafriol gall hyn gael ei ymestyn i 42 diwrnod. Symudir y stoc o'r padogau pan fydd y tyfiant yn cyrraedd 1200kg o gynnwys sych i bob hectar ac yna cânt eu hanfon yn ôl pan fydd y glaswellt wedi cyrraedd 2,500kg o gynnwys sych i bob hectar.

Mae'n pori gwartheg a defaid bob yn ail ac yn gorffwys y plotiau am 21 diwrnod o leiaf. Trwy hyn mae'n torri ar gylched y llyngyr ac yn creu porfa lân.

## Cêl



Bydd y tir yn cael ei aredig ym mis Mai a'i drin i gychwyn ac yna ei hadu yn ddelfrydol ym mis Mehefin. Math Redstart y mae'n ei ddefnyddio ar 3kg yr erw. Bydd lloeau wedi eu diddyfnu yn pori o un pen a bustych 18 mis yn pori o'r pen arall. Cedwir ei stoc ifanc allan yn y dull hwn rhwng Hydref ac Ebrill.

Trwy ddefnyddio ei system bresennol o ffermio mae Giles wedi haneru ei filiau contractwyr.

### Alex Brewster, Rotmell Farm

Daeth Alex yn rhan o grŵp pori QMS yn yr Alban ac fe wnaeth hyn ennyn diddordeb mewn ffensys trydan i gynyddu ei gynhyrchiant glaswellt. Mae Rotmell yn fferm 4,000 ha, gyda 7% ohoni wedi ei wella.

Ar ôl chwilio am ddeunydd ffens drydan ar draws y byd mae Alex wedi sefydlu cwmni o'r enw Powered Pasture, gyda phedwar o bobl yn awr yn ymwneud â rhedeg y busnes. Mae'r cwmni yn gwneud popeth sy'n gysylltiedig â ffensys trydan.




Mae'r fferm yn cadw 2,000 o famogiaid Blackies a Lley croes ac mae nodweddion mamol yn



allweddol i gynhyrchu ŵyn. Mae ganddo 100 o wartheg Angus pur sy'n lloea yn y gwanwyn. Mae'n gobeithio cynyddu'r nifer o fuchod i o leiaf 160, efallai 200. Gwerthir yr heffrod nad ydynt yn cael eu cadw yn breifat i gigydd lleol. Bydd yn gaeafu rhai o'i wartheg bîff oddi ar y fferm yn Stranraer. Yn ei fuchod mae'n chwilio am

ddyfnder y cyhyrau a gallu mamol. Yn siomedig iawn mae ei fuchod newydd sganio ar 14% yn wag. Bydd y lloeau yn cael eu diddyfnu yn 155 diwrnod, ar gyfartaledd o 230kg. Bydd y padogau yn cael eu rhannu yn flociau 3ha gyda ffens drydan, rhai gyda ffensys rhannol barhaol a'r lleill yn rhai hawdd eu symud. Mae'r ffensys yn costio tua £3/m wedi eu codi yn llawn. Dŵr yw'r broblem fwyaf wrth bori mewn padogau ac mae Alex wedi dyfeisio ei system tanc dŵr ei hun, ar lithrennau, y gall ei lusgo o un bloc i'r nesaf.

Ar y system bori mae ei heffrod yn cynyddu 1.5kg y dydd ar gyfartaledd a'i fustych ar 1.6kg y dydd. Defnyddir EID ar y gwartheg i gyd.



Mae ansawdd y pridd yn allweddol. Adroddodd Alex y bydd cynnydd o 1% o ran deunydd organig yn y pridd yn golygu y bydd yn gallu cynnwys 2,500 tonnall yn ychwanegol o ddŵr, sy'n cyfateb i fodfedd o lawiad. Wrth i laswellt dyfu mae'n tyfu'r un faint o wreiddiau. Wrth i'r glaswellt gael ei fwyta mae'r darn hwnnw o wreiddyn yn marw ac yn troi yn ddeunydd organig. Ac felly mae'r broses yn parhau – neilltuo carbon.

### **Donald MacGillivray, Pennygown Farm, Ynys Mull**

Aethom ar ymweliad ag Ynys Mull i archwilio sut y mae Gwartheg yr Ucheldir yn cael eu defnyddio i bori'n gadwriaethol. Mae hyn yn eithriadol o berthnasol i ni gan ein bod wedi



bod yn pori 10 o wartheg croes Ucheldir ar Allt yr Esgair am 2 flynedd, ond hyd yn hyn nid ydym wedi llwyddo i greu ffordd o sicrhau elw iddynt.

Mae Donald yn fridiwr gwartheg yr Ucheldir da iawn ac yn 1992 gwerthodd darw am £20,000, y pris uchaf erioed am darw Ucheldir. Mae'n dal i fridio gwartheg Ucheldir pedigri, ond mae hefyd yn eu croesi gyda Simental gan fod y stoc ifanc yn werth cymaint mwy felly. Defnyddir teirw byrgorn i gynhyrchu stoc ifanc Luing, sydd yn frîd y mae galw amdano.



Mae gan Donald wybodaeth eang am frîd yr Ucheldir ac mae wedi beirniadu mewn sioeau yn y Deyrnas Unedig (gan gynnwys Sioe Llanelwedd), Ewrop, Seland Newydd ac America.

Arferai Donald ffermio 20,000



erw, o dir bryniog yn bennaf, ond mae wedi rhoi'r rhan fwyaf yn ôl gan mai ychydig iawn o arian sydd mewn ffermio ar ynys Mull.

Gostyngodd nifer ei ddefaid i 600 a'i Wartheg Ucheldir i 60.

Arallgyfeiriodd i ddatblygu tai ac mae'n dechrau adeiladu parc carafanau. Mae gan ei fab, sydd yn rhedeg y fferm erbyn hyn, lori fawr

i symud pysgod o gwmpas yr ynnysoedd. Yn ystod ei oes mae pysgodyn sy'n cael ei ffermio yn cael ei symud 3 gwaith.



### Robert Fleming, Castle Sininess, Newton Stewart

Yn yr ardal hon o'r Alban mae'r glawiad tua 42 modfedd y flwyddyn. Mae'r tir yn amrywio o flaen traeth lle mae'r tir yn gynnes, yn draenio'n dda a ffrwythlon i dir da arall. Mae ffens drydan o gwmpas y fferm i gyd ac mae trydan ymhob cae hefyd. Mae dŵr yn ddrud, ond mae cyflenwad rhagorol yno gan mai dim ond 2 filltir i ffwrdd y mae'r gronfa.

Cynnwys y fferm 600 erw, 240 o fuchod croes Angus, ac mae'n pwysleisio ar dyfu a phesgi gwartheg. Yn rhan o'i fuches mae buches elite bur o fuchod Angus pedigri, ac mae'n magu ei deirw ifanc ohonynt, ac fe'u defnyddir ar weddill y buchod cyn eu gwerthu fel teirw sydd wedi gweithio. Yn y modd hwn mae'n sicrhau bod y genynnau gorau posibl yn cael eu defnyddio yn y brif fuches mor gyflym â phosibl. Bydd 200 o heffrod yn cael eu pesgi rhwng Ebrill, Mai a Mehefin yr ail haf gan ddibynnu ar y glaswellt. Troir y bustych dan do ar 16 Rhagfyr gan borthi byrnau mawr silwair iddynt hyd 4 Chwefror. Mae'n defnyddio tarw potel a thrawsblannu embryonau i wella geneteg y fuches.



Yn hanesyddol roedd y fferm yn fferm laeth hyd 1997. Yna 150 o wartheg biff yn codi i 265 ar yr uchafbwynt yn gwerthu lloeau yn 12-15 mis oed.

Rhennir y fferm yn badogau 4/5ha gan sicrhau ansawdd yn

ogystal â swmp o laswellt. Seilir y polisi ail-hadu ar y cynnyrch o'r cae. Mae'n defnyddio mesurydd plât ar bob cae bob pythefnos o Ionawr i ganol Mawrth. Mae ei gaeau gorau yn cynhyrchu 20 tonnelli o gynnwys sych i bob hectar y flwyddyn. Os nad yw caeau yn cyflawni hyn, y cam cyntaf yw rhoi mwy o feillion ynddynt ac os na fydd hynny'n gwella'r sefyllfa, bydd yn ail-hadu'r caeau yn llawn ac yn cymryd toriad cnwd cyfan o bys a barlys.

Rhygwellt a ddewisir i gynyddu'r swmp a rhonwellt i gael cryfder a gwreiddiau, gan fod rhonwellt yn gwreiddio hyd at 4 gwaith dyfnach na rhygwellt. Rhoddir 10% o feillion gwyn yn y gymysgedd. Chwelir 40kg N/ha bob 45 diwrnod. Defnyddir meillion coch ar gyfer silwair (dim i ddefaid) ac mae'r fferm yn tyfu lluo o blotiau treialu i'w cymharu.

Mae Robert wedi mapio pridd y fferm gyfan. Gall cae 10 erw fod â hyd at 6 parth gwahanol. Yn y ffordd honno gall P a K gael eu chwalu yn effeithiol mewn modd amrywiol. Mae'n defnyddio Agrii a Soilquest am gost o £11/ha i gynnal hyd at 50 o samplau pridd y flwyddyn. Maent yn defnyddio trelar wedi ei addasu i gymryd samplau ac maent hefyd yn asesu dyfnder y pridd. Mwyaf yn y byd o bridd sydd gennych, mwyaf yn y byd allwch chi ei wneud gydag ef. Y nod yw cael pH o 6.5 ar draws y borfa i gyd.

Mae'r rhaglen hon o bori cylchdro yn gwella gallu'r fferm i gadw stoc o 30%.

Mae'n chwalu Nitrogen 3 gwaith ar 40kg/ha bob tro gan gyrraedd cyfanswm o 120kg/ha. Profir y glaswellt bob 21 diwrnod. Ym Mai, Mehefin a Gorffennaf roedd y protein yn 27%, erbyn hyn mae'n 21% ar gyfartaledd.

Symudir buchod, lloeau a gwartheg sy'n tyfu ddwywaith yr wythnos i gychwyn ac yna bob 48 awr yn y gwanwyn/haf ac yna yn Awst yn ôl i ddwywaith yr wythnos.

Mae Robert yn anelu at deirw siâp U a buchod siâp R. Rhaid i'r teirw dyfu 1.4kg y dydd ar laswellt neu bydd yn torri arnynt. Mae un llo yn llwyddo i gynyddu 1.63.

Dylai buchod fod â sgôr braster o 5, fod â mynegai lloea o 390 neu lai a bod yn llai na 750kg o bwysau.

## **Silwair**

Os bydd wedi bod yn sych am 72 awr, yna mae'r glaswellt yn cael ei dorri a'i wywo am 36 awr. Dangosodd dadansoddiadau bod 17.7% ohono yn brotein, yr ME yn 11.6 a 49% ohono yn gynnwys sych. Dywed Robert ei fod yn gwneud silwair o'r un safon gyda'r glaswellt sydd ganddo dros ben.

Maglys rhuddlas – cynhyrchu 12.5tonnell/ha ar draws 5 toriad, 22.2% protein 11.7 ME. Mae'n cael P a K yn yr hydref a N yn y gwanwyn. Mae pH y tir yn 6.9.

## **Magu ar Gontract**

Mae 132 o loeau bîff yn cael eu magu ar gontract, gyda chyfradd dyfu ddisgwyliedig o 0.6kg y dydd. Os byddant yn llwyddo i dyfu mwy na hynny bydd yn cael bonws. Ar hyn o bryd mae'r lloeau croes Jersey yn cyflawni 0.95kg y dydd ar laswellt ac yn pori ar gylchdro. Cyflwynwyd 'haylage' o safon uchel i helpu i ddatblygu'r rwmen i gadw cydbwysedd â safon uchel y glaswellt. Mae'r 132 o loeau ar 1.25ha ac maent yn cael eu symud ddwywaith yr wythnos.



Cytunir ar gynlluniau iechyd gyda'r perchennog a milfeddyg Robert ymlaen llaw, gan gynnwys brechiad niwmonia a thriniaeth llyngyr.

Cyfrifir y cyfrif wyau ysgarthol bob 42 diwrnod.

Bydd y lloeau yma yn mynd dan do ar 1 Tachwedd ac yn ôl allan i'r glaswellt ym mis Chwefror.

Mae Robert yn cadw 120 o wartheg sy'n tyfu fel grŵp a gall gadw 700 o wartheg ac felly mae natur y gwartheg yn bwysig.

### **Defaid**

Cedwir 60 o famogiaid Roussin ar y fferm, 75kg o bwysau, maent yn wyna ar 200% ac yn pesgi ar laswellt. Fe'u defnyddir i glirio chwyn.

### **Slyri**

Mae'r slyri yn cael ei wahanu, y solidau yn cael eu troi i'r tir a'r hylif yn cael ei chwistrellu. Mae gan bob metr o slyri 2.5N.

### **Casglu a Dadansoddi Data**

Mae gan bob anifail dag EID sy'n gwneud cofnodi pwysau a chadw llyfr meddyginiaethau yn syml iawn.

Wrth dagio cymerir sampl dwbl o feinwe. Mae un ohonynt ar gyfer profion DNA y gymdeithas Angus ac mae'r llall yn brawf BVD llawn.

Bydd y gwartheg yn cael eu pwysu bob 21 diwrnod. Pan fyddant yn cyrraedd 500kg cofnodir y raddfa o ran cydlynid y corff a'r gorchudd braster hefyd.



Bob mis bydd data yn cael ei ddadansoddi i bennu faint o gig mewn tunelli sydd wedi ei dyfu ar gyfer y gwartheg sydd wedi eu magu a'u prynu i mewn.

Defnyddir meddalwedd Shearwell Farmworks ac archwilir eithriadau pan ddefnyddiwyd paramedrau pwysau i dynnu sylw at y gwartheg sydd ddim yn cyflawni fel y dylent.

### **Bioddiogelwch**

Mae Robert yn cadw ei stoc bridio ei hun ar ei fferm gartref yn unig. Cedwir y rhai sy'n tyfu ar fferm ei Dad ac mae rhai sy'n tyfu ac yn cael eu pesgi yn cael eu cadw ar ei dir tywodlyd ger y môr. Trochir esgidiau cyn symud o un grŵp o wartheg i'r llall.

### **Andrew Nelson, Cogarth Farm, Castle Douglas**

Mae Andrew yn ffermio 500 erw – gyda thraean yn dir uchel, traean yn dir pori a thraean y gellir torri silwair arno. Mae'r glawiad yn yr ardal hon yn 55 modfedd y flwyddyn. Mae'r tir ger yr afon yn SoDdGA.

Mae Andrew yn paratoi i bori mewn padogau o'r flwyddyn nesaf ymlaen. Tua 12 erw yw ei gaeau ar y cyfan ac mae'n bwriadu eu rhannu yn ddau.

Mae'n defnyddio'r tir uchel ar gyfer pori neilltuedig.

Mae gan Andrew tua 500 o famogiaid Miwl Cheviot, a Cheviot x Texel Miwl a Lleyl ac mae'n defnyddio hwrdd Texel yn bennaf er ei fod yn treialu Aberdale am y tro cyntaf.

Llwyddodd Andrew i gael perfformiad eithriadol yn y defaid eleni gan sganio ar 198% a magu 192%. Ei gyfradd wag wrth sganio oedd dim ond 1.8%.

Roedd y mamogiaid yn cael eu porthi ar yr ucheldir gyda 'snacker', ond oherwydd colledion anferth oherwydd y tywydd yn 2013, newidiodd i wyna dan do ac mae'r mamogiaid yn cael diet cyflawn o silwair, soia a barlys cyflawn.

Gwerthir yr wryn trwy Farmstock. Ei gyfartaledd yn 2016 oedd 20.25 kg ar y bach ac eleni mae'n 19.62kg. Gwerthodd 150 o wryn benyw hefyd yn breifat i fagu. Mae Andrew wedi bod yn gwerthu ar y bach yn bennaf ers 1986.

Mae gan Andrew tua 140 o fuchod Angus X Simmental ac mae'n defnyddio teirw Charolais



sy'n tyfu'n dda ac yn lloea'n rhwydd. Trwy well geneteg a rheolaeth ar laswelltir mae Andrew wedi llwyddo i gael cynnydd anferth ym mhwysau'r stoc ifanc a werthir. Yn 2004 roedd ei fustych Charolais yn 318kg ar gyfartaledd ac yn 2016 roedd hynny wedi cynyddu i 435kg. Cynyddodd yr heffrod o 293kg yn 2004 i 413kg yn 2016.

Prynir y stoc cyfnewid gan yr un ffermwr llaeth yn flynyddol. Mae'n prynu'r lloeau yn fis oed ac yn eu magu. Byddant yn cael tarw Angus ac yn lloea yn ddwy a hanner oed. Y nod yw cael buwch aeddfed sy'n pwysu rhwng 600 a 650kg. Am 9 wythnos yn unig mae'r tarw yn mynd at y buchod, gydag 85% wedi eu geni o ganlyniad i'r tro cyntaf gyda'r tarw. Mae'r heffrod yn mynd at y tarw 3 wythnos ynghynt. Dywed Andrew fod lloea fel arfer yn ddidrafferth, ond bu'n rhaid iddo roi 3 triniaeth Caesarean mewn un wythnos, gydag un llo eithriadol yn pwysu 82kg.

Mae'r fuches wedi bod heb BVD ers yr 1980au ac mae'r buchod yn cael eu brechu rhag BVD a Lepto.

## Glaswelltir



Roedd Andrew yn ffermwr glaswelltir y flwyddyn BGS yn 2011. Bydd yn pwytho glaswellt newydd a chêl gyda disg i aeafu buchod a lloeau. Maris Kestrel yw'r math o gêl, 2kg i'r erw.

Bydd pridd yn cael ei samplu ar draean o'r fferm yn flynyddol a defnyddir calch i gynnal y pH.

## Doug a Lorna Greenshields, South Mains Farm

Ar fferm South Mains maent yn lloea tua 200 o fuchod Stabiliser yn flynyddol. Defnyddir tarw ar hyn o bryd, ond efallai y byddant yn rhoi tarw potel i 70 o fuchod a'r 50 o heffrod gorau'r flwyddyn nesaf. Os defnyddir y dewis hwn, bydd eu hanner yn cael eu cyd-amseru ar Ddiwrnod 1 a'u hanner ar Ddiwrnod 7. Dan y dewis hwn bydd yr holl fuchod yn cael tarw ddwywaith yn y 29 diwrnod cyntaf. Os dewisir tarw potel y flwyddyn nesaf bydd Doug a Lorna yn gobeithio cynhyrchu teirw i'w gwerthu.



Mae'r buchod a'r heffrod yn cael prawf beichiogrwydd ym mis Rhagfyr. Wrth eu diddyfnu



rhoddir brechiad rhag IBR i'r lloeau. Bydd heffer yn cael ei thag rheoli ei hun pan bennir ei bod yn gyflo

Dywedodd y teulu Greenshields bod eu cyfradd gyfnewid o ran buchod yn uchel. Byddant yn gwaredu buchod os bydd problemau gyda'u traed, eu cadeiriau/pysiau, os byddant yn wag, wedi colli llo, neu yn wyllt o ran natur. Defnyddir gwerthoedd bridio tybiedig a chofnodi data yn helaeth ar South Mains.

Defnyddiodd Doug system bori mewn padogau ers tro ac mae'n bwriadu ymestyn yr ardal dan y drefn hon y flwyddyn nesaf. Mae'n rhannu blociau yn badogau 3-3.5 erw neu 4.5-5. Mae ganddo tua 23 erw mewn 1 bloc. Mae'n cadw 50 o fustych mawr ar 23 erw.



Pwysleisia Doug yr angen i ddeall eich glaswellt a "cherdded y tir" bob dydd. Cedwir y lefelau pH yn gyson ar South Mains. Yn ystod y cylchdro mae'n bwysig i'r glaswellt gael ei ddefnyddio yn llawn. Bydd y mamogiaid miwl â gefeilliaid yn cylchdroi yn gyntaf ac yna heffrod sy'n lloea am y tro cyntaf.

Mae Doug yn gwerthu ei stoc trwy arwerthiant a Fieldsman.

### **David Kirkpatrick, Auchenbainzie**

Mae David yn ffermio cyfanswm o 857ha wedi eu rhannu rhwng porfa ucheldir a brynau yn amrywio o 60 metr i 300 metr. Cedwir Auchenbainzie ar sail fasnachol gyda 140 o wartheg Stabilisier yn lloea yn y gwanwyn, 180 o fuchod Llaeth Holstein a 2,000 o famogiaid magu. Mabwysiadodd David Kirkpatrick ei ffordd ei hun o aeafu ei fuchod magu allan ar 800 erw o fryniau. (pori wedi ei neilltuo)





Rhoddir tarw potel i'r buchod Stabiliser unwaith (wedi ei gydamseru) ac mae'n gwerthu teirw a heffrod. Mae'r cyfraddau llwyddiant yn 62% i'r rhai llo cyntaf a 72% i'r gweddill. Diddyfnir y lloeau ym mis Hydref. Rhoddir prawf beichiogrwydd i'r buchod a'u hanfon i'r bryniau. Ym mis Ionawr rhoddir y buchod dan do, eu trin rhag llyngyr, eu brechu a rhoddir sgôr cyflwr corff iddynt. Cedwir y rhai â sgôr cyflwr corff o 2 a llai dan do, a bydd y rhai sydd dros hynny yn cael eu hanfon i'r bryniau. Ym mis Mawrth maent yn cael eu porthi ar y bryniau gan ddefnyddio 'snacker' 3 gwaith yr wythnos. Byddant yn lloea ar y bryniau o 7 Ebrill a bydd y lloea yn dod i ben ganol Mai. Gall David gofnodi ei fod wedi gwerthu 96 o loeau am y 100 buwch aeth at y tarw, sy'n dangos llwyddiant trawiadol.

### Manteision Gaeafu Allan yn Auchenbainzie

- System syml iawn.
- Arbedion o fis Hydref i'r Flwyddyn Newydd o £0.57 y dydd mewn cymhariaeth â gwartheg dan do. Rhoddir porthiant ychwanegol ar ôl y flwyddyn newydd os bydd y gwartheg yn dal ar y bryniau.
- Dim nifer fawr o wartheg gyda'i gilydd mewn unrhyw rannau o'r fferm, fel sydd wrth borthi gyda threlar silwair/porthwyr crwn a all achosi potsio mewn ardal fach gyfyngedig.
- Cyfraddau stocio is gyda lefel dda o lystyfiant bob amser a thrwy hynny osgoi difrodi porfa llawn rhywogaethau/ heb ei wella
- Cyn lleied o erydu ag sy'n bosibl a all weld dŵr yn rhedeg i ddyfrffyrdd
- Gostwng costau gaeafu trwy gadw gwartheg allan am ran o'r gaeaf neu'r gaeaf cyfan.
- Potensial i gynyddu nifer y buchod a gedwir gyda rhai yn cael eu gaeafu dan do ac eraill allan.
- Trwy gadw buchod sych allan dros y gaeaf mae mwy o le i gadw gwartheg stôr a fyddai'n cael eu gwerthu fel arfer.
- Tystiolaeth bod buchod sy'n lloea yn y gwanwyn yn cael llai o broblemau wrth ddod â llo wrth gael "ymarfer corff" ar systemau gaeafu allan.
- Tystiolaeth bod cadw llai o niferoedd dan do a llai o amser dan do yn lleihau'r heintiadau sy'n cynyddu mewn adeiladu cyn lloea.
- Gall siediau yn llawn stoc trwy'r gaeaf arwain at broblemau iechyd fel niwmonia mewn lloeau ifanc.

- Gwartheg sy'n cael eu cadw allan ar y math cywir o bridd yn ymddangos yn hapus ac iach.

Cyngor David yw canolbwyntio ar Werth Cynhyrchu Mamol.

## Canlyniadau'r Ymweliad Cyfnewid

Roedd y croeso a roddwyd a'r wybodaeth a rannwyd gan y ffermydd yr ymwelwyd â nhw yn rhyfeddol ac ni allaf ddiolch digon i bawb a gyfarfûm ar hyd y ffordd. Mae ymweld â fferm/cynhyrchwr arall yn fraint ac rwyf yn dysgu rhywbeth newydd neu ffordd newydd o wneud rhywbeth bob tro. Mae manylion yr ymweliadau yn yr adran nesaf yn yr adroddiad ac mae'r crynodeb yma yn tynnu sylw at y negeseuon allweddol yr wyf wedi eu cael o'r ymweliadau cyfnewid.

### Glaswellt

- ✓ Mae pori cylchdro yn arwain at gynnydd yn y cynnyrch o 27%
- ✓ Mae'r gymysgedd o laswelltau a dyfir, meillion yn arbennig, yn hanfodol
- ✓ Mae cynnal y gwerthoedd pH cywir yn hanfodol o ran tyfiant glaswellt, sy'n gofyn am samplor pridd yn gyson.
- ✓ Mae taldra'r borfa a 'cherdded y tir' yn nodweddion hanfodol i ddefnyddio glaswellt yn dda
- ✓ Bydd rhoi pwysau ar borfa yn cynyddu'r mas o wreiddiau, gan wella strwythur y pridd a'r deunydd organig yn y pridd. Bydd hyn yn arwain at gadw mwy o ddŵr a llai yn rhedeg oddi ar yr arwyneb.
- ✓ Mae sefydlu systemau dŵr a thrydanol yn hanfodol o ran llwyddiant pori cylchdro.
- ✓ Yn y cyswllt hwn, mae'r gallu i roi gwifren o gwmpas y fferm yng Nghymru yn gymhleth gan fod gennym nifer fawr o wrychoedd a mwy o dyfiant.

### Gwartheg

- ✓ Gellir eu cadw allan ar borfa wedi ei neilltuo yn hapus iawn ac mae'r buchod yn fwy abl a'r costau llafur yn is.
- ✓ Mae hyn yn ddibynnol ar y brîd, wrth gwrs. Rhaid i'r brîd a ddewisir fod yn addas i'r fferm.
- ✓ Mae gwelliannau genynnol dros amser yn helpu gyda'r gwerthoedd bridio tybiedig hefyd – tarw potel yw'r ffordd gyflymaf/fwyaf diogel o wella genynnau
- ✓ Mae'r kilos a dyfir i bob hectar yn fesur allweddol
- ✓ Mae gwartheg yr Ucheldir yn borwyr cadwriaethol rhagorol ond mae angen eu croesi i fod yn hyfyw yn economaidd.

### Dangosyddion Perfformiad Allweddol

- ✓ Buchod sy'n cael eu cadarnhau yn gyflo fel % o'r rhai a aeth at y tarw

- ✓ Lloeau byw fel % o'r rhai y cadarnhawyd eu bod yn gyflo
- ✓ % o'r buchod sy'n lloea yn y 6 wythnos cyntaf a'r ail chwe wythnos
- ✓ Pwysau'r lloeau wrth eu diddyfnu fel % o bwysau byw'r fuwch
- ✓ Dyddiau hyd eu Lladd
- ✓ Cynnydd pwysau'r dydd ar hyd eu hoes

## Casgliad

O ganlyniad i'r ymweliadau bydd mwy o ddefnydd o bori cylchdro yn digwydd ar fferm Newton Farm yr haf nesaf. Bydd data yn cael ei gofnodi a'i werthuso yn unol â'r dangosyddion perfformiad allweddol a restrir uchod. Rwy'n diolch yn ddiffuant i Gyfnewidfa Reolaeth Cyswllt Ffermio yn ogystal ag Ursula Taylor a Rhidian Jones am helpu i wneud yr ymweliadau yn bosibl ac i'r holl ffermwyr/arbenigwyr yr ymwelwyd â hwy am rannu eich gwybodaeth. Bydd y wybodaeth a gasglwyd yn helpu i symud Newton Farm i fedru gwrthsefyll newidiadau yn well.



Mae rhaglen Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio yn cynnig cyfle i unigolion naill ai:

- fynd ar ymweliad i ffermydd neu safleoedd coedwigaeth eraill yn yr Undeb Ewropeaidd, neu
- drefnu i reolwr fferm neu goedwigaeth profiadol sydd wedi cael hyfforddiant addas ymweld â'u daliad

Mae'r ffenestr ymgeisio yn agor bob mis Mehefin.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Cyswllt Ffermio ar 08456 000 813 neu ewch i

[www.llyw.cymru/cyswlltffermio](http://www.llyw.cymru/cyswlltffermio)

